Esgobaeth Bangor

Ad Clerum

Oddi wrth yr Esgob

Chwefror 2010

Annwyl gyfeillion,

Fel yr ydym yn paratoi i gadw'r Grawys ac yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau'r Wythnos Sanctaidd a thu draw, gobeithiaf y byddwch i gyd yn dod o hyd i amser i ddarllen, myfyrio, gwasanaethu a gweddïo mewn ffordd sy'n caniatáu i chi brofi dioddefaint, croes ac atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist. Mae'r pethau hyn yn rhyfeddod – nid oherwydd eu bod yn ansicr ond oherwydd eu bod yn fwy na chysyniadau a syniadau. Yng Nghrist rydym yn profi rhai o ddyfnderoedd Duw a ddaeth yn ddynol ac a fu farw o farwolaeth dreisgar drosom i gyd. Ond megis Sant Paul rydym yn gallu blasu grym ei atgyfodiad hefyd hyd yn oed fel y rhannwn yng nghymdeithas ei ddioddefiadau. Rwyf yn gobeithio'n wir bod y Grawys yn adeg o ras i chi i gyd.

Cymun Bendigaid Ddydd Iau Cablyd

Byddwch wedi derbyn manylion drwy bostiad yr Esgobaeth erbyn hyn am y trefniadau ar gyfer Cymun Bendigaid ddydd Iau Cablyd yn y Gadeirlan. Mae hwn yn gyfle i ni adnewyddu ein haddewidion ordeinio a gobeithiaf y byddwch i gyd yn gwneud pob ymdrech i fod yn bresennol. Ar ddiwedd y gwasanaeth bydd cyfle i ni ddiolch i Stella Schultz a fydd yn gadael yr esgobaeth ar ôl mwy na degawd o wasanaeth eithriadol. A gaf eich atgoffa bod cronfa dysteb wedi ei sefydlu a'ch annog i roi yn hael? Dylid anfon pob arian i Swyddfa'r Esgobaeth a gwneud sieciau'n daladwy i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth. Yn dilyn y gwasanaeth bydd bwyd ar gael yn Swyddfa'r Esgobaeth ar gyfer clerigion sydd mewn gwasanaeth a darllenwyr.

Penodiadau

Y Parchedig Brebendari John Nice, Deon Bro Arllechwedd (o'r 15fed Chwefror)
Y Barchedig Lynne Perry, Caplan Anrhydeddus yn y Gadeirlan
Y Parchedig Emlyn Williams, Ymgynghorydd Bywyd Gwledig

Ymadawiadau

Mrs Stella Schultz o sefyllfa Ysgrifennydd yr Esgobaeth i Esgobaeth Mynwy
Mrs Janice ap Thomas o Ganolfan yr Esgobaeth.

Y Gwir Barchedig Andrew John, Tŷ'r Esgob, Bangor, Gwynedd LL57 2SS
☎ 01248 362895 01248 372454 bishop.bangor@churchinwales.org.uk

Salwch a phrofedigaethau
Mae'n parhau'n gyffredin i mi ddarganfod bod clerigion a'u teuluoedd wedi bod yn wael ers peth amser heb i mi wybod. Da chi rhowch wybod i'r swyddfa gan fy mod yn ceisio cysylltu â theuluoedd sy'n wael ac/neu mewn profedigaeth ac yn eu hychwanegu at fy ngweddïau fy hun. Nid yw'r rhai a ganlyn wedi bod yn dda neu maent wedi dioddef colli anwyliaid ac rydym yn eu dal o flaen Duw yn arbennig.

Y Deon Alun Hawkins
Y Parchedig Ganon Tegid Roberts
Dr John a Mrs Liz Perkins
Y Parchedig Bob Hughes
Y Parchedig Ganon J C Sladden
Mrs Cicely Goddard (ar farwolaeth y Parchedig Sydney Goddard)
Mrs Phillippa Mary Wynne (ar farwolaeth y Parchedig Trevor Wynne)
Y Barchedig Janice Gourdie
Y Parchedig Emlyn Williams

Llongyfarchiadau
Ŵyr i'r Parchedigion Nigel a Celia Adams ar enedigaeth Mathew Dylan.

Trwyddedau Ewcharistig
A gaf annog y rhai nad ydynt eto wedi anfon trwyddedau ar gyfer 2010 i Dŷ'r Esgob i'w hadnewyddu wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Mae angen i Glerigion gadarnhau eu bod
yn cefnogi adnewyddu trwydded o'r fath yn ysgrifenedig.

Sabothol
Rwyf wedi llunio canllawiau newydd ar gyfer cyfnodau sabothol sydd ar gael i glerigion sydd wedi gwasanaethu yn y weinidogaeth am 10 mlynedd neu fwy. Pe baech yn dymuno ystyried cymryd cyfnod sabothol byddaf yn falch o ddarparu'r canllawiau newydd i chi.

Adolygu Clerigion
Mae'r dalaith wedi cytuno i greu ffurflen arolwg sengl a fydd ar gael yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, gan mai Bangor yw'r unig esgobaeth nad oes ganddi broses adolygu briodol, rwyf wedi cynhyrchu ffurflen dros dro fel y gall yr adolwg ddechrau ar ôl y Pasg. Ymdrinnir â'r holl drefniadau o Dŷ'r Esgob ac ymgymerir â'r adolygiadau yn iaith ddewisol y sawl a adolygir. Bydd yr uwch-glerigion yn gyfrifol am adolygiadau a byddaf yn ysgrifennu atoch ar ôl y Pasg gyda mwy o fanylion. A gaf bwysleisio nad goruchwylio yw hyn ond cyfle i fyfyrio ar weinidogaeth mewn modd agored, gweddïgar a dymunol.

Cynhadledd yr Esgobaeth
Yn dilyn cynhadledd y llynedd a sylwadau llawer a oedd yn meddwl y byddem yn gallu cynhyrchu rhywbeth ychydig yn fwy creadigol, gofynnwyd i dîm edrych ar gynnwys, arddull a fformat y gynhadledd.

Y Gwir Barchedig Andrew John, Tŷ'r Esgob, Bangor, Gwynedd LL57 2SS
☎ 01248 362895 01248 372454 bishop.bangor@churchinwales.org.uk

Llawlyfr
Mae llawlyfr yr Esgobaeth gyda'r argraffwyr ar hyn o bryd a bydd ar gael yn fuan. Diolch i chi i gyd am eich amynedd yn hyn o beth – nid oedd yn hawdd mynd â materion yn eu blaenau gyda chyn lleied o bobl ar gael i gynorthwyo'r golygydd ac i gywiro llawer o'r wybodaeth o'r llawlyfr blaenorol a oedd yn anghywir.

Derbyn Catholigion Rhufeinig/Pabyddion
Ceir gwasanaeth Derbyn i glerigion pe gofynnir iddynt (sydd yn cael ei ddiweddaru'n fuan) ac rwyf yn hapus i dderbyn Catholigion yng nghyd-destun conffyrmasiwn pe gofynnir. Cysylltwch â Thŷ'r Esgob am fwy o fanylion.

Conffyrmasiwn
Rwyf yn ddiolchgar i'r eglwysi hynny sy'n anfon y casgliad yn gyflym i Dŷ'r Esgob pan fu gwasanaeth conffyrmasiwn. Mae hynny'n caniatáu i mi gefnogi nifer o fentrau a phrosiectau yn yr esgobaeth, ac yn achlysurol, bobl gydag anghenion arbennig iawn. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i'r 'Cronfa Genhadol a Chyffredinol'. Mae o gymorth, os bydd newid amser o'r un a gytunwyd gyda Swyddfa'r Esgob, os rhoir gwybod i'r Esgob am hynny!

Cenhadaeth ac argraffu
Os bydd gennych anghenion argraffu arbennig ar gyfer prosiectau cenhadol, gwnaed ni'n ymwybodol o gwmni lleol sy'n barod i argraffu deunyddiau (o fewn rheswm) yn rhad ac am ddim. Cysylltwch â mi am fwy o fanylion.

Pob bendith a diolch i chi am eich partneriaeth yn yr efengyl.

+Andrew

Y Gwir Barchedig Andrew John, Tŷ'r Esgob, Bangor, Gwynedd LL57 2SS
☎ 01248 362895 01248 372454 bishop.bangor@churchinwales.org.uk